



## Dweud eich dweud ar arbedion

**Mae Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cytuno rhestr o gynigion arbedion drafft gwerth cyfanswm o £12.8 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (2015/16).**

Mae angen i'r cyngor wneud yr arbedion hollol newydd yn dilyn gostyngiad yn ei setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Yn y rhifyn diwethaf o Newsline wnaethom gynnwys holiadur cyllideb yn gofyn i ddarllenwyr flaenoriaethu gwasanaethau dewisol y cyngor o ystyried y pwysau ariannol hyn. Cwblhaodd dros 1,700 o breswylwyr yr arolwg, a oedd ar gael ar-lein hefyd, a'r adborth hwn a helpodd y Cabinet i gytuno ar ei dargedau arbedion.

Mae cynnydd Treth y Cyngor o **3.9%** ar gyfer 2015/16 hefyd wedi cael ei gynnig, ac os caiff hwn ei awdurdodi, bydd cynydd wythnosol o 48c ar gyfer eiddo Band A a 71c ar gyfer eiddo Band D.

Mae'r cynigion hyn bellach yn destun cyfnod pellach o ymgynghori cyn bod y gyllideb derfynol ar gyfer 2015/16 yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor yn y Flwyddyn Newydd.

Dyweddodd Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd Keith Reynolds, "Rwyf am roi neges gref iawn mai ein bwriad yw diogelu gwasanaethau rheng flaen lle bynnag y bo modd."

"Rwy'n hyderus os fydd gennym gefnogaeth lawn bawb, gallwn ddarparu cyllideb gytbwys, deg gyda phennaf les y bobl yn ein bwrdeistref sirol wrth ei gwraidd."

Ychwanegodd, "Mae'r targedau arbedion yn anodd, a bydd angen i ni wneud rhai penderfyniadau anodd, ond byddwn yn parhau i ddelio â'r heriau hyn drwy ddull pwyllog a chytbwys."

**Mae'r adroddiad arbedion drafft llawn a'r atodiadau ar gael o [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)**



**Cyng Keith Reynolds**  
Arweinydd y Cyngor



Gweler y  
dudalen ganol  
am ragor o  
wybodaeth

# Nadolig llawn digwyddiadau!

Mae tymor y Nadolig ar fin cychwyn, ac mae'r cyngor unwaith eto yn cynnig rhaglen ysblennydd o ddigwyddiadau'r Nadolig ar gyfer ymwelwyr o bell ac agos.

## Marchnad Nadolig Coed Duon

### Dydd Sadwrn 6ed a Dydd Sul 7fed Rhagfyr

Dechreuwch yr hwyl ym Marchnad Nadolig Coed Duon. Bydd y Stryd Fawr yn llawn stondinau bwyd a chrefft, yn ogystal â reidau ffair bleser, adloniant traddodiadol, ogof Siôn Corn, ceirw go iawn a hyd yn oed asynnod yng ngolygfa'r geni!



## Marchnad Nadolig a Gorymdaith Lusernau Rhisga

### Dydd Sadwrn 6ed Rhagfyr

Bydd Rhisga hefyd yn ymuno yn yr hwyl drwy gynnal Marchnad Nadolig a Gorymdaith Lusernau Rhisga. Bydd Parc Tredegar yn llawn bywyd gyda stondinau, adloniant, reidau ffair bleser a cherddoriaeth draddodiadol, a fydd yn rhan o atgofion Nadoligaidd pobl o bob oedran.



## Llawr Sglefrio Lâ Bargod

### Dydd Mercher 10fed i Ddydd Sul 14eg Rhagfyr

Ar ôl ei boblogrwydd yn y gorffennol, bydd Llawr Sglefrio lâ Bargod yn dychwelyd i Faes Parcio Santes Gwladys eto eleni am bum diwrnod. Gallwch arddangos eich sgiliau sglefrio a gadael yr oerfel wrth y drws yn y cyfleuster pob twydd poblogaidd hwn, am ddim ond £3 y person!

## Ffair Nadolig Caerffili

### Dydd Sadwrn 13eg a Dydd Sul 14eg Rhagfyr

Gallwch brofi golygfeydd, synau ac oglau Ffair Nadolig Caerffili. Gyda dros 100 o fasnachwyr yn dod i'r dref i werthu anrhegion Nadolig anarferol, ynghyd â gweithgareddau ac adloniant - mae yna rywbeth i'r teulu cyfan eu mwynhau. Ewch i'r Castell i ddarganfod Nadolig Fictoriaid lle gall ymwelwyr fwynhau adloniant sy'n cynnwys straeon ysbryd Fictoriaid, sioeau Pwnsh a Siwan, syrcas chwain a ffair Fictoriaid yn ogystal â chyflie i weld Siôn Corn ei hun! Bydd mynediad am ddim i blant i'r Castell ond bydd ffioedd mynediad yn gymwys i oedolion.

## Gorymdaith Lusernau Afon y Goleuni Caerffili

### Dydd Iau 18fed Rhagfyr 6.30pm

I orffen y dathliadau mae Gorymdaith Lusernau Afon y Goleuni blynnyddol ar Ddydd Iau 18fed Rhagfyr am 6.30pm gan gychwyn o or saf drenau Caerffili. Gwelwch y strydoedd yn dod yn fyw wrth i gannoedd o bobl llifo drwy ganol tref Caerffili gyda'u llusernau, wedi'i ddilyn gan arddangosfa Tân gwylt ysblennydd dros Gastell Caerffili.

## Gweithdai gwneud llusern Afon y Goleuni

Bydd gweithdai yn cymryd lle yng Nghanolfan Hamdden Caerffili ar 6ed / 7fed Rhagfyr a'r 13eg / 14eg Rhagfyr rhwng 10am a 5pm.

Am ragor o wybodaeth am y digwyddiadau hyn a phob digwyddiad Nadolig arall sy'n cymryd lle ar draws bwrdeistref sirol Caerffili, ewch i

[www.caerffili.gov.uk/nadolig](http://www.caerffili.gov.uk/nadolig)  
neu cysylltwch â Chanolfan Croeso Caerffili ar

029 20 88 00 11



## Rhoi Lifft i preswylwyr i fynd i'r gwaith

Mae cynllun arloesol yn cynnig cymorth i preswylwyr i ddod o hyd i gyflogaeth.

Mae'r Prosiect Lifft, a weinyddir gan Gymunedau yn Gyntaf gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru, yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion wrth chwilio am gyflogaeth.

### Mae'r cynllun wedi'i anelu'n bennaf at y rhai sydd yn:

- 16 oed neu'n hŷn
- Wedi bod yn ddi-waith am chwe mis neu fwy
- Byw mewn tŷ lle nad oes neb yn gweithio
- Byw ar eu pen eu hunain / rhiant sengl ac yn ddi-waith
- Ddim ar y Rhaglen Waith ar hyn o bryd
- Byw mewn un o'r ardaloedd canlynol: Parc Lansbury, Parc Porset, Parc Churchill, Pen-yr-heol, Trecenydd, Abertridwr, Senghenydd, Graig-y-rhaca, Tretomas

Mae'r prosiect Lifft yn darparu cymorth un i un wedi'i deilwra, hyfforddiant sgiliau, gweithdai gorbryder/ magu hyder, sesiynau blasu galwedigaethol, a chefnogaeth cynnydd parhaus i helpu defnyddwyr i ddod o hyd i waith. Mae yna hefyd weithdy datgelu arbennig i gefnogi preswylwyr sydd ag euogfarn flaenorol sy'n awyddus i gael gwaith.

Am fwy o wybodaeth am y Prosiect Lifft ffoniwch Sheila ar 07808 203658 / [lillys@caerffili.gov.uk](mailto:lillys@caerffili.gov.uk) neu Rachel ar 07808 203659 / [rentor@caerffili.gov.uk](mailto:rentor@caerffili.gov.uk)

Torri allan a chadw

[www.caerffili.gov.uk/ynadolig](http://www.caerffili.gov.uk/ynadolig) neu ffoniwch 029 2088 0011

## CALENDR DIGWYDDIADAU'R NADOLIG

Beth sy'n digwydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

### RHAGFVR

#### Marchnad Nadolig Rhisga

6ed Rhagfyr

#### Marchnad Nadolig Coed Duon

6ed a 7fed Rhagfyr

#### Llawr Sglefrio lâ Bargod

10fed - 14eg Rhagfyr

#### Ffair Nadolig Caerffili

13eg a 14eg Rhagfyr

#### Gweithdai Gorymdaith Afon y Goleuni

6ed/7fed a 13eg/14eg Rhagfyr

#### Gorymdaith Lusernau Afon y Goleuni Caerffili

18fed Rhagfyr

Torri allan a chadw



Ymweld Caerffili

A greener place to live, work and visit  
Man gwyrddach i fyw, gweithio ac ymweld

CAERPHILLY  
COUNTRYSIDE & GREENSPACE  
CAERFFILI

# Yn barod i Graenu!!

Wrth i amodau'r tywydd oer ddisgyn, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn barod i ymateb i amodau'r tywydd a graeanu'r heolydd ar fyr rybudd.

Yn aros un cam o flaen bob tro, mae'r tîm Prifffydd yn derbyn diweddariadau dyddiol oddi wrth y Swyddfa Dywydd ac mewn achos o ragolygon tymereddau isel, maent yn barod i anfon eu cerbydau graeanu allan. Gyda 10,000 tunnell o ræn wedi ei storio a 15 cerbyd graeanu, mae'r tîm yn barod i ymdopi ag amodau gwael y gaeaf hwn os yw'r angen yn codi.

Mewn achos o amodau tywydd garw, bydd y cerbydau yn canolbwytio ar y prif rwydweithiau ac wrth law i ymateb i argyfyngau. I helpu clirio heolydd llai sydd ddim ar yr amserlen, mae cyfanswm o 875 o finiau halen ochr yr heol wedi cael eu llenwi i drigolion eu defnyddio.

Dyweddodd Cyng. Tom Williams, Aelod Cabinet dros Briffydd a Chludiant: "Mae'r tîm Prifffydd wedi bod yn brysur iawn yn gwneud darpariaethau i sicrhau eu bod wedi paratoi'n llawn i ymdopi ag unrhyw amodau tywydd garw'r gaeaf hwn."

Mewn ymdrech i gadw busnesau ar agor lle mae'n bosib, mae'r cyngor hefyd wedi diweddaru ei Gynllun Gwasanaeth Gaeaf sy'n amlinellu'r gweithrediadau allweddol amrywiol a fydd yn cael ei gyflawni gan staff yn ystod tywydd garw i gadw'r prif heolydd ar draws y fwrdeistref sirol yn symud.

Ychwanegodd Cyng. Williams " Mae yn hynod o bwysig sicrhau diogelwch ein preswylwyr yn ystod cyfnodau o dywydd garw a chadw gwasanaethau hanfodol ar gyfer yr aelodau mwyaf archolledig o'n cymuned."



Am fwy o wybodaeth ar baratoadau'r gaeaf ar draws bwrdeistref sirol Caerffili, ewch i [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)

## Trwydded i berfformio

**Mae'r paratoadau Nadolig wedi dechrau, a gyda hynny daw tymor o bantomeim a sioeau Nadolig.**

### Os yw eich plentyn yn cymryd rhan mewn sioe, a oeddech yn gwybod...?

- Mae angen i bob plentyn gael trwydded i berfformio, er bod eithriadau a dylech gyfeirio at y canllawiau sydd ar gael ar y wefan CBSC;
- Mae'r gyfraith yn gosod rheolau llym ynglŷn â'r oriau gall plant perfformio;

- Dylai pob plentyn fod o dan oruchwyliaeth eu rhiant neu ofalydd cofrestredig wrth berfformio;
- Heb drwydded perfformio, mae'n bosibl na fydd gan blentyn yswiriant.

Am ragor o wybodaeth am drwyddedu perfformio plant a'r amserau a'r mathau o waith y gall pobl ifanc ei wneud tra eu bod dal yn yr ysgol, ewch i [www.nncee.org.uk](http://www.nncee.org.uk) neu [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk) neu cysylltwch â Gwasanaeth Lles Addysg y Cyngor, drwy ffonio **01443 815588**.


## Ymgynghoriadau Cynllun Datblygu Lleol

Mae Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dangos lle mae datblygiadau newydd fel tai, cyflogaeth ac ysgolion wedi eu cynllunio hyd at 2021. Cafodd y cynllun presennol ei fabwysiadu gan y cyngor yn 2010 a nawr yn y broses o gael ei adolygu i symud y cynllun ymlaen i 2031.


### Beth mae hyn yn ei olygu i chi:

Mae cyfres o ddigwyddiadau i helpu hysbysu sut y dylai bwrdeistref sirol Caerffili ddatblygu yn y cyfnod cynllunio hyd at 2031 wedi cael eu cynnal yn barod ac wedi hysbysu'r 'Drafft Strategaeth am Ddatblygiad.' Yn y Flwyddyn Newydd, byddwn yn chwilio am drigolion i ddweud eu dweud ar y drafft strategaeth, gan fod y cyngor eisiau eich barnau ar le dylai datblygiadau newydd gael eu caniatáu yn y dyfodol. Bydd digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus yn cael eu cynnal yn gynnar yn 2015 a fydd yn cynnwys cyfres o arddangosfeydd mewn lleoliadau amrywiol ar draws y fwrdeistref sirol.

Bydd manylion ymgynghori yn cael eu hysbysu yn y wasg leol, ar wefan y cyngor a rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol. Bydd dogfennau ar gael i'w harddangos ym mhob llyfrgell, Canolfannau Gwasanaethau Cwsmer ac yn Nhŷ Pontllan-fraith yn ystod cyfnodau ymgynghori. Am fwy o wybodaeth, neu i gael eich ychwanegu at y gronfa ddata CDLI, cysylltwch â'r llinell frys CDLI ar **01495 235376** neu **e-bostiwch:** cynllundatblyguleol@caerffili.gov.uk



**CINDERELLA  
10 - 31 Rhagfyr**



Sefydliad y Glowyr Coed Duon, y Stryd Fawr,  
Coed Duon, NP12 1BB  
Tocynnau £6.00 - £15.00

**01495 227206**

[www.blackwoodminersinstitute.com](http://www.blackwoodminersinstitute.com)

# Coedwig Cwmcarn - ar agor am fusnes!

Mae Coedwig Cwmcarn yn bendant ar agor am fusnes er gwaethaf y gwaith torri coed sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y Ffordd Goedwig.

Caeodd Ffordd Goedwig Cwmcarn i draffig y mis diwethaf er mwyn caniatáu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni gwaith torri coed ar goed llarwydd heintus sydd wedi'u halogi gan gleyyd ffwngaid o'r enw Phytophthora remorum (clefyd y llarwydd).

Er bod heol y Ffordd Goedwig ei hun ar gau i draffig, mae holl gyfleusterau eraill yng Nghoedwig Cwmcarn yn parhau i fod ar agor ar gyfer busnes fel arfer i ymwelwyr eu mwynhau trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Ganolfan Ymwelwyr ar agor fel arfer, yn cynnwys siop anrhegion gyda chynnig gwych o grefftaw a gynhyrchir yn lleol a nwyddau Cymreig a Chaffi'r Gigfran sydd yn darparu amrywiaeth eang o fwyd a diod.

Mae'r llyn pysgota, ardal chwarae i blant dan 7 oed a'r podiau gwersylla yn dal i fod ar agor. Mae'r llwybrau beicio traws gwladd a gwaered, a'r trac feicio hefyd ar agor.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n trefnu'r gwaith torri coed fel ei fod yn cael cyn lleied o effaith ar ymwelwyr â phosibl.

Unwaith y bydd y coed llarwydd heintiedig wedi cael eu clirio ac mae'r ddaear yn barod, bydd yr ail-blannu o ystod eang o goed coetir llydanddail brodorol, megis derw, cyll a cherddin yn dechrau.


I gael rhagor o wybodaeth am y gweithfeydd, ewch i

[www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

a chwiliwch am 'Cwmcarn'



I gael gwylodaeth am ddigwyddiadau ac atyniadau sydd i ddod yng Nghoedwig Cwmcarn, ewch i [www.cwmcarnforest.co.uk](http://www.cwmcarnforest.co.uk)



## Beth yw clefyd y llarwydd?

Mae 78% o'r coed ar hyd Ffordd Goedwig Cwmcarn wedi'u halogi gan y clefyd ffwngaid Phytophthora ramorum (clefyd y llarwydd).

Gall y clefyd ffwngaid achosi difrod helaeth a marwolaethau i ystod eang o goed a phlanhigion eraill.

Mae clefyd y llarwydd yn lledaenu trwy sborau awyr o goeden i goeden. Nid oes unrhyw fygythiad i iechyd pobl neu anifeiliaid.

Fodd bynnag, gall ymwelwyr i'r coetiroedd helpu i leihau lledaeniad y clefyd trwy gymryd rhai camau syml megis cael gwared ar unrhyw fwd, deunydd planhigion neu ddail o esgidiau, dillad, cŵn a theiars car.

## Newid y ffordd rydym yn gwneud busnes



[www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)

GWEFAN NEWYDD

A greener place to live, work and visit  
Man gwyddach i fyw, gweithio ac ymweld



## Cynllun Cyffordd Crymlyn

Mae gwaith i wella cyffordd â signalau ar yr A467/A472 yng Nghrymlyn, gyda'r nod o leihau problemau tagfeydd presennol yn yr ardal wedi ei raglennu i ddechrau ym mis Ionawr.

Mae'r gwaith, sydd nawr yn bosibl i'w gyflawni diolch i arian grant gan Lywodraeth Cymru, wedi'i drefnu i ddechrau ar 5ed Ionawr 2015 a rhagwelir iddynt bara am 34 wythnos.

Er mwyn cynnal y gwaith, bydd rheolaeth traffig ar waith drwy gydol y gwaith yn ystod adegau allfrig 9.30am tan 3.30pm ac ar ôl 6.30pm yn ystod yr wythnos. Yn ystod yr adegau hyn, gall y nifer o lonydd sydd ar gael leihau a allai arwain at rywfaint o oedi i amseroedd teithio.

Am fanylion pellach, ffoniwch **01443 866 511** neu ebostiwch [peirianneg@caerffili.gov.uk](mailto:peirianneg@caerffili.gov.uk)

# Mae cyffro yn cynyddu ar gyfer yr Urdd

## Mae cyffro yn cynyddu ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sy'n dod i fwrdeistref sirol Caerffili Mai nesaf.

Dydd Sadwrn, 4 Hydref, yn ystod Gwyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r Cylch, llwyddodd Ysgol Ifor Bach, Abertridwr i ennill y wobr gyntaf am y faner orau yn yr orymdaith trwy ganol Caerffili i'r castell.

Roedd yr wyl wedi ei noddi gan Western Power Distribution (WPD), ac fel rhan o'r nawdd hwnnw roedd gwobr o £500 am y faner orau oedd yn portreadu eu hysgol, ardal, yr Urdd neu gyfuniad o'r tri.

Roedd tua 4,000 o blant ac oedolion yn yr orymdaith, ac roedd nifer fawr o faneri lliwgar i'w gweld. Dyfrig Davies, Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a

Jason Whitehead o WPD oedd â'r dasg anodd o feirniadu.

Bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ar dir Llancaiaach Fawr ger Nelson, 25 - 30 Mai 2015. Dywedodd Aled Sion, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, "Cawsom ddiwrnod gwych yng Nghaerffili gyda nifer dda iawn o blant lleol wedi ymuno yn yr orymdaith i gyhoeddi fod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dod i ardal Caerffili.

Mae'r brwd frydedd sydd yn yr ardal tuag at yr Eisteddfod yn anhygoel a chriw arbennig o wrifoddolwyr yn gweithio'n galed yma. Os bydd yr Eisteddfod mor lwyddiannus a'r wyl gyhoeddi, mi fydd gennym Eisteddfod i'w chofio yma yng Nghaerffili a'r Cylch mis Mai 2015."

**Am fwy o wybodaeth am  
yr Eisteddfod ewch i  
[www.urdd.org/eisteddfod](http://www.urdd.org/eisteddfod)**



## Gwirfoddolwch a gwnewch wahaniaeth

Ydych chi erioed wedi ystyried defnyddio'ch amser sbâr i helpu rhywun arall?

### Mae'r Gwasanaeth Gwirfoddoli yn chwilio am wrifoddolwyr newydd i gefnogi oedolion archolledig ar draws y fwrdeistref sirol.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd i wrifoddolwyr cwrdd ag oedolyn archolledig sydd â diddordebau, hobiau neu werthoedd tebyg.

Mae'r hyn yr ydych yn ei gwneud yn gwbl dibynnau ar faint o amser sbâr sydd gennych - gallwch fynd am drip i'r ganolfan hamdden, sinema neu'r siopau, neu efallai cwrdd â rhywun am goffi, neu fynd i'w cartref am sgwrs.

Gall unrhyw un dros 16 oed wrifoddoli, a gallwch wrifoddoli ar sail tymor byr neu hir. Bydd camau gwirio priodol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau eich bod yn addas, a bydd hyfforddiant a

chywirwyddyd parhaol yn cael eu cynnig er mwyn cefnogi eich gwirfoddoli.

**Am ragor o wybodaeth yngylch gwirfoddoli i gynorthwyo oedolyn archolledig, ffoniwch **01443 864482** neu e-bostiwch:** [gwirfoddolioedolion@caerffili.gov.uk](mailto:gwirfoddolioedolion@caerffili.gov.uk)



## Cadw'n lach a Thwym y Gaeaf Hwn

**Mae cymorth ar gael i breswylwyr sy'n ei chael hi'n anodd gwresogi eu cartrefi sydd yn anfeithlon o ran ynni'r gaeaf hwn, diolch i gynllun gan Lywodraeth Cymru.**

Mae'r cynllun Nyth yn cynnig cymorth a chyngor am ddim ar arbed ynni a gostwng biliau gwresogi'r cartref. Yn ogystal â chyngor am ddim, os bydd preswylwyr yn berchen neu'n rhentu eu cartref yn breifat ac yn derbyn budd-dal sy'n dibynnau ar brawf modd, gallent fod yn gymwys ar gyfer gwelliannau cartref heb unrhyw gost. Gall y rhain gynnwys boeler gwres canolog newydd, inswleiddiad llofft, neu inswleiddio waliau ceudod a waliau solet.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae dros 900 o drigolion bwrdeistref sirol Caerffili wedi elwa o gyngor rhad ac am ddim, gyda 129 o gartref hefyd yn derbyn gwelliannau cartref am ddim.



Gellir cysylltu â Nyth ar **Radifon 0808 808 2244** i gael cyngor ar leihau biliau tanwydd ac i ddarganfod os ydych yn gymwys ar gyfer pecyn welliannau i'r cartref sy'n arbed ynni rhad ac am ddim neu ewch i [www.nestwales.org.uk/cy/hafan](http://www.nestwales.org.uk/cy/hafan)

## ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNGOR YN CAEL EI GYHOEDDI

### Mae adroddiad sy'n asesu perfformiad gwasanaethau'r cyngor wedi cael ei gyhoeddi.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynnyddol ar gyfer 2013/14 wedi ei gynllunio i fesur perfformiad a sicrhau bod y safonau y mae'r cyngor yn gosod i'w hun yn cael eu bodloni.

Mae adroddiad eleni yn dangos bod y cyngor wedi gwneud nifer o welliannau i sawl maes o'i gwaith.

Dyweddodd y Cyngorydd Keith Reynolds, "Mae pethau cadarnhaol enfawr i'w cymryd o'r adroddiad hwn wrth i ni ddilyn cynnydd ein gwelliant parhaus, ond mae meysydd eraill yr ydym yn cydnabod

sydd angen sylw pellach a byddwn yn troi ein sylw at wella'r meysydd hyn wrth i ni ymdrechu tuag at gyflenwi gwasanaethau cyngor effeithiol ac effeithlon."

"Hoffwn ddiolch i staff a phreswylwyr am eu hymdrehion wrth ein helpu i fwrr ymlaen â'r agenda gwella." Mae copïau o'r adroddiad

ar gael mewn llyfrgelloedd ar draws y fwrdeistref sirol ac mewn derbynfeydd swyddfeydd cyngor.

Mae fersiwn ar-lein o'r Adroddiad Perfformiad Blynnyddol ar gyfer 2013/14 ar gael hefyd, ewch i [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)



**Cyng. Keith Reynolds**  
Arweinydd y Cyngor

# Dewiswch y Stryd Fawr ar Adeg y Nadolig!

Mae preswylwyr ac ymwelwyr bwrdeistref sirol Caerffili yn cael eu hannog i 'Ddewis y Stryd Fawr' yn ystod tymor y Nadolig, wrth i dîm Rheoli Canolau Trefi'r cyngor lansio cam nesaf ei ymgrych i godi ymwybyddiaeth o unigolrwydd o'r hyn sydd ar gael ym mhob un o'r canolau trefi.

Yn dilyn lansiad llwyddiannus yr ymgrych Dewiswch y Stryd Fawr ym mis Mehefin eleni, mae'r fenter hon yn canolbwytio ar godi ymwybyddiaeth o ddewis y defnyddwyr a'i nod yw annog pobl i ddefnyddio eu stryd fawr leol yn fwy aml - yn enwedig yn ystod y cyfnod masnachu hollbwysig sy'n dod cyn y Nadolig.

Mae'r tîm Rheoli Canol Trefi wedi ymuno gyda manwerthwyr ar draws y

fwrdeistref sirol i ddadorchuddio cynllun Ilyfryn talebau disgownt Dewiswch y Stryd Fawr ar Adeg y Nadolig arbennig, sy'n cynnig bron 100 o ddisgwontiau gwych i siopwyr mewn dros 70 o siopau drwy gydol mis Rhagfyr.

Gellir codi eich Ilyfryn talebau o'r Ilyfrgelloedd a chanolfannau gwasanaethau cwsmer. A gellir ei defnyddio rhwng Dydd Llun 1af Rhagfyr a Dydd Mercher 24ain Rhagfyr 2014.

Dyweddodd y Cynghorydd Ken James, "Mae'r cyfnod masnachu cyn y Nadolig yn adeg hollbwysig i fanwerthwyr, a thrwy'r ymgrych hon rydym yn wir annog preswylwyr ac wrth gwrs ymwelwyr i'r fwrdeistref sirol i ddefnyddio ein canol trefi unigryw. Drwy wneud hynny, gallant wneud defnydd o'r cynllun Ilyfryn talebau

rhagorol a chael rhai bargeinion gwych mewn mwy na 70 o siopau gwahanol."

Parhaodd, "Gobeithiaf y bydd y cynllun hwn, ynghyd â rhaglen fawr o ddigwyddiadau Nadoligaidd rydym wedi cynllunio ar gyfer ein canol trefi yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig, yn helpu'n

fawr i gefnogi masnachwyr, a denu mwy o bobl i brofi'r cynnig unigryw yng nghanol trefi ein bwrdeistref sirol."

Gellir gweld rhestr lawn o fanwerthwyr a'u gostyngiadau a chynigion Nadolig a chynigion drwy fynd i [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)



I gael rhagor o wybodaeth am yr ymgrych Dewiswch y Stryd Fawr ar Adeg y Nadolig ffoniwch 01443 866 213

## 'Gyda'r Nos' yn dathlu ei ben-blwydd cyntaf

Blwyddyn yn ddiweddarach ac mae'r fenter Caerffili Saffach Gyda'r Nos ar ei anterth ac yn paratoi ar gyfer misoedd y Nadolig unwaith eto.

Mae Swyddog Economi Gyda'r Nos, Cwngestad Adam Lang yn gweithio ar draws bwrdeistref sirol Caerffili, yn targedu canol trefi Coed Duon a Chaerffili yn bennaf. Mae e'n canolbwytio ei waith ar ddod â nifer o sefydliadau gwahanol ynghyd, gan gynnwys cwmniau tacsi, siopau bwyd parod, bwytau sydd ar agor yn hwyr, tafarnau, swyddogion diogelwch a bugelied y stryd, yn ogystal â Heddlu Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Bwriad cyffredinol 'Caerffili Saffach Gyda'r Nos' yw sicrhau bod cynig dull cyd-drefnus yn galluogi i ymwelwyr i ganol y trefi hyn fwynhau eu noson mewn modd diogel yn ogystal â lleihau achosion o ymddygiad treisgar a gwrthgymdeithasol pellach yng nghanol trefi ac annog pobl i yfed yn gyfrifol a gwella ymwybyddiaeth o ddiogelwch.

Ers dechrau'r rôl, mae Adam wedi bod yn ymweld â thafarndai lleol a siopau trwyddedig yn siarad am unrhyw faterion sydd ar y gweill. Mae 'Pub Watch online' bellach yn gweithredu yng Nghaerffili a Choed Duon.



Mae 'PubWatch' yn cynnig cyfleoedd i adeilad trwyddedig yn y trefi i rannu arfer gorau ar draws y diwydiant ac yn darparu fforwm ar gyfer Heddlu Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn deall materion a thrafod problemau gyda grŵp.

Mae'r PubWatch Banning Scheme wedi profi'n arf a thacteg effeithiol i ychwanegu cam cadarnhaol ymlaen i waredu'r

rheini sydd yn bwriadu achosi problem mewn eiddo PubWatch ac nid yn unig yn yr un lle ddigwyddodd y broblem.

Bydd gan bob adeilad trwyddedig sydd wedi cofrestru â PubWatch mynediad at luniau a manylion y person sydd wedi achosi'r broblem ar flaenau eu bysedd. Bydd hwn yn rhoi adnabyddiaeth gynnar i staff o'r rheini sydd wedi eu gwahardd gan y llysoedd, cam ymlaen gwych gan y trwyddedai i wella'r gwasanaeth y maent yn darparu i'r gymuned. Yn y cyfnod cyn y Nadolig, bydd ymgyrchoedd aml-asiantaeth pellach yn parhau i dargedu tafarnai a chlybiau yn yr ardal, yn canolbwytio ar gymryd cyffuriau anghyfreithlon, gwerthu i bobl dan oed a gwiriadau iechyd a diogelwch.

Am fanylion pellach ar Gaerffili Saffach Gyda'r Nos, ewch i <http://your.caerphilly.gov.uk/saferccb>

**Safer Caerphilly County Borough**

**Bwrdeistref Sirol Caerffili Saffach**

## Amserlen y Ganolfan Symudol

Mae Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Symudol y cyngor yn gwneud cael mynediad at wasanaethau'r cyngor yn haws o lawer i filoedd o breswylwyr.

Mae'r cerbyd yn cynnig ystod eang o wasanaethau gan gynnwys talu treth y cyngor/rhent, ymholaiddau treth y cyngor, gofyn am atgyweiriad tai cyngor, chwilio am swyddi gwag presennol y cyngor a chyflwyno ceisiadau am waith e.e. rhoi gwybod am geudwll ac ati.

### Mae'r cerbyd yn mynd i'r lleoliadau canlynol bob wythnos:

|                     |   |                      |  |                      |  |                      |
|---------------------|---|----------------------|--|----------------------|--|----------------------|
| <b>Dydd Mawrth</b>  | <b>DERI</b><br>Taith Glan Afon                              | <b>09.30 - 11.00</b> | <b>FOCHRIW</b><br>Maes parcio ar Gae Glas Newydd       | <b>11.30-13.00</b>   | <b>RHYMNI</b><br>Gorsaf Dân                                | <b>14:00 - 15.30</b> |
| <b>Dydd Mercher</b> | <b>NELSON</b><br>Maes parcio oferbyn â'r orsaf fysiau       | <b>09.15 - 10.45</b> | <b>GELLIGAER</b><br>Tu ôl i'r siopau ar Heol Penalta   | <b>11.00 - 12.30</b> | <b>TRINANT</b><br>Sgwâr Teras Trinant                      | <b>14:00 - 15.30</b> |
| <b>Dydd Iau</b>     | <b>YNYSDDU</b><br>Maes parcio ar Y Stryd Fawr               | <b>09.30 - 11.00</b> | <b>CEFN-Y-PANT</b><br>Tu ôl i'r siopau ar Heol Penalta | <b>11.30 - 13.00</b> | <b>TREDEGAR NEWYDD</b><br>Encilfa ar Ffordd y Rhosyn Gwyn  | <b>14:30 - 16.00</b> |
| <b>Dydd Gwener</b>  | <b>TY-SIGN</b><br>Geri y siopau gwaelod ar Ffordd y Llwyfan | <b>09.30 - 11.00</b> | <b>TRETOMOS</b><br>Encilfa ar Ffordd Llanfabon         | <b>11.30 - 13.00</b> | <b>ABERTRIDWR</b><br>Cyfarbynni a'r CCGI ar Heol Brynhafod | <b>14:00 - 15.30</b> |

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01443 864 143 neu ewch i [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)



# Defnyddio trwyddedau faniau dros gyfnod y Nadolig

**Bydd trefniadau ar gyfer prynu/roi trwyddedau faniau i waredu gwastraff yng Nghanolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn newid ychydig dros gyfnod y Nadolig.**

Bydd trigolion sydd angen trwyddedau ar gyfer Dydd Sadwrn 27ain Rhagfyr 2014 i Ddydd Llun 4ydd Ionawr 2015 yn gallu dewis safle fel arfer. Fodd bynnag, bydd trigolion yn gallu defnyddio'r drwydded ar unrhyw adeg yn ystod yr oriau agor (9:00am – 4:30pm) rhwng Dydd Sadwrn 27ain Rhagfyr 2014 i Ddydd Llun 4ydd Ionawr 2015. Nodwch y bydd Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar gau ar Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan.

**Bydd y slotiau amser presennol yn ailddechrau ar Ddydd Mawrth 5ed Ionawr 2015.**

Os bydd trigolion yn dymuno defnyddio fan yn un o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref y fwrdeistref sirol dros gyfnod y Nadolig, mae'r cyngor yn argymhell bod trwydded yn cael ei gaffael o flaen llaw oherwydd bod y Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid y Cyngor yn cau.

Bydd y rhan fwyaf o'r Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid yn cau am 12pm ar Noswyl Nadolig Dydd Mercher 24ain Rhagfyr ac yn ailagor ar Ddydd Gwener 2il Ionawr. Fodd bynnag bydd tri safle - Llyfrgell Caerffili, Palas Rhisga a Chapel Hanbury ar agor rhwng 9:30am a 4:30pm ar Ddydd Mawrth 30ain Rhagfyr a Nos Galan Dydd Mercher 31ain Rhagfyr.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Rheoli Gwastraff ar [01443 866533](tel:01443866533)**



## Gwaith yn dechrau ar gymunedau cyfeillgar o ran Oedran a Dementia



**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn parhau i gyflawni ei addewid o greu a chefnogi cymunedau cyfeillgar o ran oedran ar ôl arwyddo addewid Ewrop eang a elwir yn Ddatganiad Delyn ym Mehefin 2013.**

Yn ddiweddar, mae staff allweddol wedi mynchyu cynhadledd yn edrych ar arfer da ledled Cymru gyda golwg ar ystyried sut y gallwn ddatblygu'r gwaith hwn ar draws y fwrdeistref. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi datblygu Cod ymarfer Urdas a Pharch ar gyfer ein cartrefi gofal preswyl ac wedi buddsoddi mewn adnoddau Hel Atgofion ar gyfer cartrefi gofal a llyfrgelloedd.

Bydd ein prosiect allweddol cyntaf Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn dod â thîm Cymunedau'n Gyntaf y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyda'i gilydd i edrych ar sut y gallwn helpu i wneud Rhymni yn gymuned gyfeillgar o ran dementia.

Am ragor o wybodaeth ynghylch cymorth a chyngor ar gael i breswylwyr ewch i [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk) neu ffoniwch **0808 100 25 00**

## Cynlluniau Tŷ Dyffryn yn cael eu harddangos

**Mae cais cynllunio a fyddai'n gweld y cyfleuster Tŷ Dyffryn presennol ym Mharc Busnes Dyffryn yn cael ei aildatblygu i ddarparu ystod o wasanaethau dinesig wedi cael ei gyflwyno.**

Mae angen cynlluniau tymor hir ar waith gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ymdrin yn effeithiol â'i gwastraff trefol, ac mae cynhorau ar draws Cymru o dan bwysau cynyddol i gyrraedd targedau ailgylchu llym a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r cynnig o aildatblygu Tŷ Dyffryn eisoes wedi cael ei gymeradwyo gan Gabinet a Phwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor. Mae cais cynllunio ffurfiol bellach wedi cael ei gyflwyno i'w ystyried, a bydd y penderfyniad terfynol ynghylch y datblygiad yn cael ei wneud yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol.

Mae'r cyngor yn awyddus i sicrhau bod preswylwyr yn cael cyfreithiol i ddysgu mwy am y cynigion, felly bydd cynlluniau manwl a gwybodaeth bellach ar gael ar ffurf arddangosfa gyhoeddus, a fydd yn y lleoliadau canlynol:

**■ wythnos yn dechrau 1af Rhagfyr – Llyfrgell Ystrad Mynach**

**■ wythnos yn dechrau 8fed Rhagfyr – Llyfrgell Llanbradach**

**■ wythnos yn dechrau 15fed Rhagfyr – Tŷ Dyffryn**

Bydd yr arddangosfa wedyn yn aros yn ei le yn Nhŷ Dyffryn i breswylwyr i'w gweld am nifer o wythnosau. Mae copiâu caled o'r cais cynllunio a gwybodaeth gysylltiedig hefyd ar gael i'w gweld yn Nhŷ Pontllan-fraith, Llyfrgell Ystrad Mynach a Llyfrgell Llanbradach. Mae copi ar-lein o'r cynlluniau hefyd ar gael i'w weld drwy fynd i [www.caerffili.gov.uk/cynllunio](http://www.caerffili.gov.uk/cynllunio)

